# Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru
# Eiriolaeth – dull gweithredu cenedlaethol

## Rhagymadrodd

Cafodd y dull gweithredu cenedlaethol tuag at eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, sy'n hysbys i adrannau gwasanaethau plant, ei gyflwyno fel dull o weithio ym mis Gorffennaf, 2017.

Mae model y dull gweithredu cenedlaethol yn gosod dyletswydd ar staff gwasanaethau plant i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc a ddaeth i dderbyn gofal ar ôl y 1[af] o Orffennaf, 2017, ac sy'n dod yn rhan o weithdrefnau amddiffyn plant yn derbyn gwasanaeth eiriolaeth drwy gynllun gofal a chymorth.

## Beth yw Eiriolaeth?

Eiriolaeth yw hyrwyddo barn**,** dymuniadau a theimladau i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ac y gweithredir arnynt yn ystod y prosesau llunio penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd plentyn. Ymgorfforir eiriolaeth yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn UNCRC.

Mae Eiriolaeth:

- dan arweiniad y plentyn neu'r person ifanc
- yn gyfrinachol (oni bai bod yna bryderon ynglŷn ag amddiffyn plant)
- yn cynrychioli llais y plentyn yn hytrach nag yn gweithio o safbwynt buddiant gorau.

## Pam mae eiriolaeth yn bwysig?

Mae plant a phobl ifanc yn dweud bod eiriolaeth yn eu galluogi nhw i gael:

- gwell dealltwriaeth o'u hawliau ac o sut i gael cymorth
- cyfle i fynegi'u dymuniadau a'u teimladau, ac i fod yn rhan o'r drafodaeth sy'n dylanwadu ar eu cynllun gofal
- gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd iddynt. Maent yn deall eu cynllun gofal a sut i ddylanwadu ar benderfyniadau neu newidiadau i'w cynllun
- mwy o hyder a gallu i fynegi'u teimladau, ac i ymgysylltu'n well â'r bobl sy'n gofalu amdanynt
- y gallu i wneud newidiadau yn eu bywydau. Gall eiriolaeth eu helpu nhw i sefydlogi lleoliadau, trefniadau cyswllt, addysg, ac yn y blaen
- rhywun i ddweud wrtho/wrthi os nad ydynt yn teimlo'n ddiogel.

## Beth yw'r 'cynnig gweithredol'?

Mae'r 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth ar waith i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cynnig cyfarfod wyneb yn wyneb am awr â'r darparwr eiriolaeth a gomisiynwyd pan ddônt yn hysbys am y tro cyntaf i adran y gwasanaethau plant, ac ar ôl hynny ar adegau pontio allweddol; er enghraifft, adolygiadau, symudiadau lleoliadau a chyfarfodydd cynadleddau.

Yn ystod y cyfarfod, fe fydd y darparwr eiriolaeth yn:

- trafod y gwasanaeth eiriolaeth
- hysbysu am hawliau a'r hyn y mae hawl iddynt ei gael
- darparu gwybodaeth am wasanaethau a chymorth sydd ar gael i'r plentyn neu'r person ifanc
- hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc am drefn gwyno'r gwasanaethau plant.

Dylai fformat y cyfarfod gynnwys:

- eglurhad o hawliau plant – UNCRC ac Erthygl 12
- eglurhad o eiriolaeth a'r gwahanol fathau o eiriolaeth (nid dim ond eiriolaeth broffesiynol annibynnol)
- gwybodaeth am y gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol lleol, Comisiynydd Plant Cymru a llinell gymorth Meic (gweler isod am fanylion cysylltu)
- gwybodaeth am yr hawl i gwyno
- eglurhad y bydd yr eiriolwr yn cofnodi bod y cyfarfod wedi digwydd, canlyniad y cyfarfod ac y bydd y manylion hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r awdurdod lleol
- mae ar staff gofal cymdeithasol angen cofnodi manylion yn fewnol bod y 'cynnig gweithredol' o eiriolaeth wedi'i roi ar gael, a gwneud yr atgyfeiriad perthnasol i ddarparwr yr eiriolaeth os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn rhoi caniatâd i gael cyfarfod.

Bydd darparwr yr eiriolaeth yn monitro nifer y cynigion gweithredol a ddarperir gan weithwyr cymdeithasol i'r plentyn/person ifanc, ac yn cymharu nifer y cynigion gweithredol â'r niferoedd sy'n mynd rhagddynt i dderbyn y cynnig gweithredol a gwaith achos.

**Proses y cynnig gweithredol**

**Cyfnod 1 – Cynnig gweithredol**
(Gweithiwr cymdeithasol i egluro yn gryno y gwasanaeth eiriolaeth ac i gynnig cyfarfod wyneb yn wyneb â darparwr eiriolaeth – gweithiwr cymdeithasol i gofnodi cynnig a chanlyniad.)

↓

**Cyfnod 2 – Atgyfeiriad i ddarparwr eiriolaeth**
(Os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi cytuno i gyfarfod â'r darparwr eiriolaeth, fe ddylai'r gweithiwr cymdeithasol wneud atgyfeiriad o gynnig gweithredol i'r gwasanaeth gan ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio ar-lein @nyas.net)

↓

**Cyfnod 3 – Cyfarfod cynnig gweithredol**
(Ar ôl derbyn yr atgyfeiriad, fe fydd y darparwr eiriolaeth yn cysylltu â'r plentyn/person ifanc ac yn cytuno ar ddyddiad, amser a lleoliad cyfarfod. Bydd y darparwr eiriolaeth, gyda chaniatâd y plentyn/person ifanc, yn hysbysu'r cyfeiriwr trefniadau.)

Unwaith y mae'r cyfarfod wedi digwydd, fe fernir y caiff y deilliannau canlynol eu cyflawni.

**Dylid atgoffa plant a phobl ifanc o wasanaethau eiriolaeth drwy gydol yr amser y maent yn derbyn cymorth gan adrannau gwasanaethau plant.**

## Deilliannau disgwyliedig

**Deilliant 1: derbyn eiriolaeth.** Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn teimlo y gall y gwasanaeth eiriolaeth ddarparu cymorth ar unwaith ar gyfer mater penodol, fe fydd y darparwr eiriolaeth yn cau'r atgyfeiriad o gynnig gweithredol ac yn agor atgyfeiriad newydd ar gyfer y mater a ganfuwyd ac yn darparu cymorth eiriolaeth. Bydd y darparwr yn hysbysu'r atgyfeiriwr penodol am y deilliant, ac fe ddylid ei gofnodi o fewn systemau rheoli data gwasanaethau plant.

**Deilliant 2: gwrthod eiriolaeth.** Nid yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi nodi angen ar unwaith am gymorth eiriolaeth. Bydd y darparwr yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth, sut y gall eiriolaeth helpu a manylion cysylltu ar gyfer cymorth yn y dyfodol. Bydd y cyfeiriwr penodol yn cael ei hysbysu am y deilliant, ac fe ddylid ei gofnodi ar systemau rheoli data gwasanaethau plant. Bydd y darparwyr eiriolaeth yn cau'r atgyfeiriad o gynnig gweithredol.

## Darparwyr Eiriolaeth yng Nghymru

Disgwylir i awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i'w trefniadau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn eu hardal ac i ddarparu gwybodaeth am hawliau plant i bob plentyn neu berson ifanc y maent yn gofalu amdano.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i gynorthwyo dau fudiad hawliau plant annibynnol, sef Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) a Tros Gynnal Plant, i ddarparu eiriolaeth a chyngor i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal.

Mae Tros Gynnal Plant yn darparu gwasanaethau eiriolaeth i:

- Rhanbarth Gogledd Cymru
- Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Rhanbarth Bae'r Gorllewin

Ffoniwch 0800 111 6880 neu anfonwch e-bost at northwalesadvocacy@trosgynnalplant.org.uk

Mae NYAS Cymru (Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol) yn darparu gwasanaethau eiriolaeth i:

- Rhanbarth Caerdydd a'r Fro
- Rhanbarth Gwent
- Rhanbarth Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

Ffoniwch 0808 808 1001 neu anfonwch e-bost at help@nyas.net

## Rhagor o Adnoddau

**MEIC**
Dyma wasanaeth llinell gymorth ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 mlwydd oed yng Nghymru. Mae'n cwmpasu gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth.
https://www.meiccymru.org/in-your-area/

**Comisiynydd Plant Cymru**
Mae Comisiynydd Plant Cymru yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc.
https://www.childcomwales.org.uk/

## Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth yn wastad yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau

cymorth, cyhoeddiadau, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori hanfodol i aelodau.

**Cyngor**
Llinell Faethu Cymru
Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn ffonio y tu allan i'r amser hwn, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:
Fosterlinewales@fostering.net
Y Rhwydwaith Maethu
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ

**Cymorth ac Adnoddau**
Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad a chael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth.
thefosteringnetwork.org.uk

**Taflen Ffeithiau Eiriolaeth a Phobl Ifanc**
Mae Llinell Faethu Cymru wedi paratoi taflen ffeithiau ar eiriolaeth ar gyfer gofalwyr maeth. Mae gan ofalwyr maeth rôl hanfodol i'w chwarae i alluogi llais y plentyn neu'r person ifanc i gael ei glywed. Mae'r daflen ffeithiau hon yn amlinellu'r hyn yw eiriolaeth i blant a phobl ifanc a phwysigrwydd gofalwyr maeth i alluogi llais y plentyn neu'r person ifanc i gael ei glywed.

Lawrlwythwch y Daflen Ffeithiau ar Eiriolaeth a Phobl Ifanc
Fersiwn Saesneg    Fersiwn Gymraeg

**Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori**
Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu**
Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

**Cysylltwch â**
I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn:  029 2044 0940
E-bost:  wales@fostering.net
Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk

/thefosteringnetwork  @fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017